Datganiad Polisi a Phroses ar gyfer Derbyn Myfyrwyr Sydd Dan 18 Oed

Fersiwn:	1.0	Dyddiad Cyhoeddi:	09/20
Rheswm dros y diweddaru:	Newydd		
Cymeradwywyd:	Bwrdd Marchnata a Derbyn Myfyrwyr	Mewn grym o:	09/20
Cysylltwch â	Sarah Whitehead, Dirprwy Gofrestrydd (Derbyn Myfyrwyr)		

Dylech gofio bod y datganiad polisi hwn yn mynd law yn llaw â Pholisi Diogelu'r Brifysgol https://www.aber.ac.uk/cy/hr/diogelu/ a'i fod yn berthnasol i fyfyrwyr sy'n cychwyn ar raglenni gradd llawn.

Nid yw'r datganid polisi hwn yn berthnasol i fyfyrwyr sy'n cymryd rhan mewn ysgolion haf, cyrsiau byrion, cyrsiau'r Ganolfan Saesneg Ryngwladol neu ddarpariaeth addysg gymunedol. Anogir y rhai sy'n ymgeisio am y cyrsiau hyn, ac sydd dan 18 oed, i gael sgwrs ag arweinydd y rhaglen berthnasol cyn gwneud cais. Mae cyngor i fyfyrwyr sy'n ymgeisio am le yn y Ganolfan Saesneg Ryngwladol i'w weld yng Ngweithdrefn Ddiogelu'r Ganolfan Saesneg Ryngwladol: https://www.aber.ac.uk/en/media/departmental/internationalenglishcentre/safeguarding/IEC-Safeguarding-Procedures.pdf.

A. Rhagair

Amgylchedd i oedolion yw Prifysgol Aberystwyth lle mae myfyrwyr yn cael eu trin fel unigolion annibynnol ac aeddfed. Fel rheol, mae'r myfyrwyr ym Mhrifysgol Aberystwyth yn 18 oed neu'n hŷn. Serch hynny, mae'r Brifysgol weithiau yn derbyn myfyrwyr sydd dan 18 oed pan fyddant yn cychwyn ar eu rhaglen astudio. I'r rhan fwyaf o fyfyrwyr, dim ond am gyfnod byr y bydd ganddynt y statws hwn, gan y byddant fel rheol yn cyrraedd 18 oed yn ystod eu blwyddyn gyntaf.

Bydd ceisiadau gan unigolion a fydd dan 18 oed pan fyddant yn cofrestru yn cael eu hystyried fesul achos, ac mae'n bosib y bydd y Brifysgol yn mynnu mai dim ond ar ôl pennu meini prawf derbyn a/neu amodau penodol y caiff yr unigolion hynny eu derbyn. Wrth dderbyn unrhyw fyfyriwr sydd dan 18 oed, bydd yn rhaid llofnodi *Ffurflen Gydsynio ar gyfer Derbyn Myfyrwyr Sydd Dan 18 Oed* Prifysgol Aberystwyth.

Ni fydd y Brifysgol yn derbyn yr un ymgeisydd sydd dan 18 oed hyd nes bod y Ffurflen Gydsynio wedi'i llofnodi, ei dychwelyd a bod asesiad risg wedi cychwyn (bydd hwn yn rhoi sylw i faterion megis llety / cymorth adrannol / cymorth i fyfyrwyr).

B. Yr Egwyddorion Cydsynio

Nod y canllawiau canlynol yw sicrhau bod cyfrifoldebau'r Brifysgol a chyfrifoldebau'r rhiant/gwarcheidwad o ran yr ymgeisydd yn glir.

Drwy lofnodi *Ffurflen Gydsynio ar gyfer Derbyn Myfyrwyr Sydd Dan 18 Oed* Prifysgol Aberystwyth, ystyria'r Brifysgol bod yr ymgeisydd a'i riant/gwarcheidwad yn cadarnhau eu bod wedi darllen a deall yr egwyddorion canlynol:

1. **Cyfrifoldeb Rhiant**

Ni all y Brifysgol arfer yr hawliau, y cyfrifoldebau na'r awdurdod arferol sydd gan rieni mewn perthynas â phlentyn, ac ni fydd yn gweithredu *in loco parentis* o ran myfyrwyr sydd dan 18 oed. Rhaid i bob myfyrwyr sydd dan 18 oed fod â rhiant/gwarcheidwad yn y Deyrnas Gyfunol. Os oes gan fyfyrwyr rieni/gwarcheidwaid sy'n byw y tu allan i'r Deyrnas Gyfunol, rhaid penodi gwarcheidwad ar eu cyfer sy'n byw yn y Deyrnas Gyfunol.

2. **Contractau**

Fel rheol, ni all y rhai dan 18 oed fynd i gontractau cyfreithiol. Os oes angen contract, er enghraifft ar gyfer ffioedd dysgu neu ffioedd llety'r Brifysgol, mae'r Brifysgol yn gofyn bod rhiant/gwarcheidwad yn gweithredu fel gwarantwr ac yn anrhydeddu pob rhwymedigaeth sydd ganddo dan gontract â'r Brifysgol cyn pen-blwydd y myfyriwr yn 18 oed.

3. **Llety**

Dylai ymgeiswyr, rhieni a gwarcheidwaid cyfreithiol gydnabod mai ar gyfer oedolion yn anad neb y bwriadwyd llety preswyl y Brifysgol, ac nad oes modd dod i drefniant arbennig ar gyfer myfyrwyr sydd dan 18 oed. Pan fydd y Brifysgol yn cael cais oddi wrth rywun sydd dan 18 oed, bydd y Rheolwr Preswylfeydd yn cynnal asesiad risg er mwyn ystyried pob risg sydd ynghlwm wrth y cais, a sut i liniaru’r risgiau hynny, fesul achos. Rhaid i hyn ddigwydd cyn cynnig llety preswyl i fyfyriwr.

Ni fydd myfyrwyr eraill sy'n rhannu'r un llety prifysgol â'r sawl sydd dan 18 oed yn cael gwybod am hyn. Yn ogystal â hynny, ni chaiff, ac ni all, y Brifysgol gynnal gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd y Deyrnas Gyfunol (sy’n ymwneud â diogelu) ar y rhai sy'n byw neu sy'n astudio â myfyrwyr sydd dan 18 oed.

4. **Cynnwys y rhaglen academaidd**

Ar ôl derbyn cais oddi wrth fyfyriwr a fydd dan 18 oed pan fydd yn cofrestru, bydd yr adran/adrannau academaidd perthnasol yn cynnal asesiad risg i benderfynu ar addasrwydd y rhaglen astudio arfaethedig.

Mae rhaglenni academaidd wedi'u cynllunio, eu cymeradwyo a'u dilysu fel y gellir eu cyflwyno i fyfyrwyr sydd dros 18 oed. Felly, mae'n bosib mai dim ond i'r rhai sydd dros 18 oed y bydd rhai deunyddiau dysgu yn addas. Os yw ymgeiswyr a/neu rieni/gwarcheidwaid yn poeni am gynnwys rhaglenni academaidd, dylent drafod hyn â Thiwtor Derbyn y cwrs.

Yn achos rhai rhaglenni, mae'r corff proffesiynol perthnasol yn mynnu bod myfyrwyr yn 18 oed neu'n hŷn pan fyddant yn cofrestru. Darllenwch dudalennau gwybodaeth y cyrsiau unigol ar wefan ac ym mhrosbectws y Brifysgol, neu cysylltwch â'r Swyddfa Derbyn Israddedigion (ug-admissions@aber.ac.uk) i gael rhagor o wybodaeth.

Dylech gadw mewn cof na fydd gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu cynnal ar staff y Brifysgol (staff dysgu neu weinyddol) fel mater o drefn.

5. Teithiau maes

Bydd myfyrwyr ar rai rhaglenni astudio yn mynd ar deithiau maes a gwibdeithiau, neu byddant yn treulio cyfnodau astudio eraill ymhell o gampws y Brifysgol. Bydd y rhain naill ai'n orfodol neu'n ddewisol. Cynhelir asesiadau risg cyn pob taith maes, a bydd trefniadau penodol yn cael eu gwneud fel y bydd modd darparu ar gyfer myfyrwyr sydd dan 18 oed lle bo hynny'n bosib. Efallai na fydd modd cymryd rhan ymhob gweithgaredd. Oni nodir yn wahanol, mae rhieni/gwarcheidwaid yn cydsynio i'w plentyn/gward gymryd rhan yn y gweithgareddau hyn drwy lofnodi'r ffurflen gydsynio.

6. Lleoliadau Gwaith

Yn ôl cyfraith iechyd a diogelwch, mae rhywun sydd ar leoliad gwaith yn cael ei ystyried yn weithiwr. Felly, rhaid diogelu iechyd, diogelwch a lles myfyrwyr sydd ar brofiad gwaith i'r un graddau ag y diogelir gweithwyr eraill (i weld Gweithdrefnau ac Arferion Iechyd a Diogelwch y Brifysgol, ewch i https://www.aber.ac.uk/cy/hse/proc-prac/). Bydd cydlynydd lleoliadau gwaith yr adran academaidd berthnasol yn hysbysu'r goruchwylydd ynglŷn ag unrhyw fyfyrwyr sydd dan 18 oed, a bydd yn sicrhau bod yswiriant ar gael a bod gweithdrefnau iechyd a diogelwch priodol ar waith. Bydd hefyd yn sicrhau bod y goruchwylydd yn gwybod am y cyfrifoldebau ychwanegol sydd ynghlwm wrth gyflogi pobl ifanc, gan gynnwys bodloni unrhyw ofynion sydd gan y Swyddfa Datgelu a Gwahardd.

Dylid gwneud trefniadau addas i sicrhau y gall myfyrwyr gadw mewn cysylltiad â'r Adran / tiwtoriaid tra bônt ar leoliad gwaith, ac mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer myfyrwyr sydd dan 18 oed.

7. Gofal bugeiliol

Bydd y trefniadau cymorth academaidd a phersonol arferol yn cael eu gwneud ar gyfer myfyrwyr sydd dan 18 oed, gan gynnwys dyrannu tiwtor personol penodol i'r myfyrwyr hynny. Cyfrifoldeb Pennaeth yr adran berthnasol fydd monitro'r sefyllfa a sicrhau bod y trefniant o ran tiwtoriaid personol yn gweithio'n effeithiol.

8. Darparu gwasanaethau TG

Mae Prifysgol Aberystwyth yn cynnig gwasanaethau e-bost a mynediad i'r rhyngrwyd heb ei oruchwylio i'w holl fyfyrwyr. Un o'r amodau sydd ynghlwm wrth ddefnyddio gwasanaeth TG Prifysgol Aberystwyth yw bod myfyrwyr yn ymddwyn mewn ffordd gyfrifol ac fel oedolion. Rhaid i fyfyrwyr hefyd dderbyn a glynu wrth reoliadau, polisïau a chanllawiau'r Gwasanaethau Gwybodaeth (gweler https://www.aber.ac.uk/cy/is/regulations/). Gallai peidio â chydymffurfio â’r rhain arwain at gamau disgyblaethol.

9. Amddiffyn Plant

Yn ôl y gyfraith, mae unrhyw un sydd dan 18 oed yn blentyn. Mae'n gyfrifoldeb ar y Brifysgol i ddiogelu'r rhai sydd dan 18 oed rhag camdriniaeth, ac mae gan y Brifysgol Bolisi Diogelu Pobl sy'n Agored i Niwed. Rhaid i'r Brifysgol adrodd wrth y Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Blant priodol ynghylch unrhyw amheuon neu honiadau sy'n ymwneud â cham-drin plant, a bydd unrhyw amheuon neu honiadau o'r fath yn cael eu hadrodd wrth Bennaeth y Gwasanaethau Cefnogi Myfyrwyr a Gyrfaoedd, sef Swyddog Adrodd Penodedig y Brifysgol, neu ei enwebai, a fydd yn cysylltu â'r awdurdodau perthnasol.

10. Perthynas ag Aelodau Staff mewn Swydd o Ymddiriedaeth

O dan Ddeddf Troseddau Rhyw 2003, bydd unigolyn sydd mewn safle o ymddiriedaeth yn cyflawni tramgwydd troseddol os yw'n cymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol â rhywun sydd dan 18 oed, hyd yn oed os yw honno'n berthynas gydsyniol.

11. Dal Swydd / Swyddi o Gyfrifoldeb

Mae cyfle i bob myfyriwr ymuno â chlybiau a chymdeithasau'r Brifysgol neu Undeb y Myfyrwyr. Fodd bynnag, ceir rhai cyfyngiadau:

Ni chaiff y rhai sydd dan 18 oed ddal swydd neu fod â swydd o gyfrifoldeb yn y clybiau neu'r cymdeithasau hyn, e.e. dal swydd sabothol neu weithredu fel ymddiriedolwr y myfyrwyr.

Efallai na fydd modd i'r rhai sydd dan 18 oed fod yn aelodau llawn o glybiau a chymdeithasau myfyrwyr a/neu efallai na chânt gymryd rhan lawn yn eu gweithgareddau, e.e. digwyddiadau sy'n cynnwys alcohol. Os bydd gan gymdeithasau/clybiau myfyrwyr aelod sydd dan 18 oed yn eu plith, bydd eu hasesiadau risg yn cofnodi hynny, ac elfen allweddol o'r asesiadau risg hynny fydd teithiau.

12. Gwerthu Alcohol, Tybaco a nwyddau a gwasanaethau eraill a gyfyngir gan oedran

Mae'n anghyfreithlon i unrhyw un dan 18 oed brynu alcohol neu nwyddau tybaco, ac mae'n anghyfreithlon gwerthu'r nwyddau hyn i unrhyw un dan 18 oed. Mae prynu'r nwyddau hyn ar ran rhywun sydd dan 18 oed hefyd yn drosedd, boed hynny i'w hyfed/eu bwyta mewn mangre drwyddedig neu mewn man cyhoeddus rhywle arall. Mae Prifysgol Aberystwyth yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau y glynir wrth y gyfraith o ran mangreoedd trwyddedig sydd dan reolaeth y Brifysgol, ond ni all ymrwymo i oruchwylio myfyrwyr unigol.

Ceir cyfyngiadau oedran hefyd o ran prynu llawer o nwyddau a gwasanaethau eraill, gan gynnwys:

- Toddyddion
- Caniau ail-lenwi goleuadau nwy â thanwydd
- Tân gwyllt
- Cyllyll, llafnau a bwyelli
- Rhai fideos, DVDs a gemau cyfrifiadurol
- Mynediad i lefydd lle dangosir ffilmiau sy'n addas i'r rhai dros 18 oed yn unig

Cewch restr o'r cyfyngiadau diweddaraf ar wefan PASS:http://www.pass-scheme.org.uk/age-charts/

13. Cyfraniad rhieni

Polisi'r Brifysgol yw ei bod yn delio â myfyrwyr ac nid â rhieni neu warcheidwaid. Mae hyn yr un mor wir am fyfyrwyr sydd dan 18 oed. Felly, bydd y Brifysgol yn gohebu â myfyrwyr, ac nid â rhieni neu eu gwarcheidwaid, oni fydd y Brifysgol yn cael caniatâd penodol ar bapur gan y myfyriwr, neu os oes argyfwng meddygol, troseddol neu argyfwng tebyg. Nid yw hyn yn berthnasol i faterion cytundebol sy'n ymwneud â ffioedd llety a dysgu, lle bydd yn rhaid i'r rhiant/gwarcheidwad cyfreithiol weithredu fel gwarantwr hyd nes bod y myfyriwr yn 18 oed (gweler Adran 2).

14. Diogelu Data a datgelu gwybodaeth bersonol

Fel y nodir uchod, polisi'r Brifysgol fel arfer yw delio'n uniongyrchol â'i holl fyfyrwyr, ni waeth beth fo'u hoedran. Nid yw'n delio â rhieni'r myfyrwyr. Yn unol â Deddf Diogelu Data 2018, er bod y rhai sydd dan 18 oed yn cael eu hystyried yn blant dan gyfraith y Deyrnas Gyfunol, mae'n dal ganddynt hawl gyfreithiol i fynnu nad yw gwybodaeth amdanynt yn cael ei datgelu heb iddynt gydsynio'n benodol i hynny. Golyga hyn na all y Brifysgol roi gwybodaeth i rieni ynghylch cynnydd myfyriwr, ei ganlyniadau neu unrhyw amgylchiadau personol oni fydd y myfyriwr wedi cydsynio'n benodol i hynny.

Yn unol â gofynion statudol, mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i gysylltu â rhieni/gwarcheidwaid myfyriwr sydd dan 18 oed i drafod materion diogelu, os mai diogelwch yr unigolyn a allai fod mewn perygl yw'r flaenoriaeth. Efallai y bydd amgylchiadau'n codi lle bydd yr awdurdodau perthnasol yn cael gwybod am fater diogelu heb i'r sawl sydd dan 18 oed fod wedi cydsynio i hynny.

Yn ogystal â hynny, os na fydd myfyriwr yn talu unrhyw gostau sy'n ddyledus dan gontract (megis ffioedd dysgu), efallai y bydd angen datgelu hynny wrth riant / gwarcheidwad sy'n gweithredu fel gwarantwr, ac efallai wrth asiantaeth casglu dyledion hefyd.

15. Hysbysu

Cyn i'r cyfnod cofrestru gychwyn, bydd y Gofrestra Academaidd yn hysbysu Pennaeth yr adran/adrannau academaidd perthnasol, Pennaeth y Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr a Gyrfaoedd a Phennaeth yr Adran Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd ynglŷn ag unrhyw fyfyriwr a fydd dan 18 oed pan fydd yn cychwyn yn y Brifysgol. Bwriad hyn yw sicrhau y gall yr adran academaidd/gwasanaeth proffesiynol gynnal asesiad risg i sicrhau bod mesurau diogelu priodol ar waith ar gyfer y myfyriwr hwnnw. Ni fydd staff dysgu eraill na'r staff yn y gwasanaethau proffesiynol yn cael gwybod beth yw oedran myfyriwr fel mater o drefn.

16. Manylion cyswllt mewn argyfwng

Mae'r Brifysgol yn gofyn am fanylion cyswllt dau berson y gellir cysylltu â nhw mewn argyfwng 24 awr y dydd ar gyfer pob myfyriwr sydd dan 18 oed. Rhaid i o leiaf un o'r bobl hyn fod yn rhiant neu'n warcheidwad sy'n byw yn y Deyrnas Gyfunol.

17. Myfyrwyr o du allan i'r Deyrnas Gyfunol sydd dan 18 oed

Mae'r Brifysgol yn mynnu bod gan bob myfyriwr sydd dan 18 oed riant neu warcheidwad sy'n byw yn Deyrnas Gyfunol. Os yw'r rhieni/gwarcheidwaid yn byw y tu allan i'r Deyrnas Gyfunol, rhaid penodi gwarcheidwad addas sy'n byw yn y Deyrnas Gyfunol. Rhaid i'r gwarcheidwad a benodir fod dros 18 oed a gall fod yn aelod o'r teulu estynedig neu'n gyfaill i'r teulu. Fel arall, cewch restr o asiantaethau achrededig drwy gysylltu â Chymdeithas y Gwarcheidwaid Addysgol ar gyfer Astudiaethau Rhyngwladol (yr AEGIS).

Rhaid i ymgeiswyr sy'n 16 neu 17 oed y mae angen Fisa Myfyriwr Haen 4 (Cyffredinol) arnynt ddarparu caniatâd ysgrifenedig oddi wrth riant/rieni neu warcheidwad/warcheidwaid cyfreithiol i fyw ac i deithio'n annibynnol er mwyn ymgymryd â'u hastudiaethau arfaethedig. Dylid cyflwyno copi wedi'i gyfieithu o

dystysgrif geni'r ymgeisydd, neu ddogfennau eraill sy'n brawf o'u perthynas â'r rhiant, gyda'r ffurflen gydsynio.

C. Gweithdrefn Derbyn Myfyrwyr sydd Dan 18 Oed.

i. Mae cais yn dod i law oddi wrth fyfyriwr, a chesglir y bydd yr ymgeisydd dan 18 oed ar yr adeg gofrestru arfaethedig.

ii. Mae'r adran/adrannau academaidd perthnasol yn cynnal asesiad risg cychwynnol o'r cwrs. Bydd y tîm Derbyn Myfyrwyr Israddedig yn cydlynu â'r Swyddog Diogelu yn yr adran/adrannau academaidd perthnasol i gwblhau'r asesiad risg. Bydd yr asesiad hwnnw'n cael ei gadw gan y Gofrestrfa Academaidd.

iii. Bydd yr asesiad risg a gwblhawyd yn cael ei ystyried gan Bennaeth yr Adran Cymorth i Fyfyrwyr a Gyrfaoedd, Pennaeth yr adran/adrannau academaidd a chan y Dirprwy Gofrestrydd (Derbyniadau) neu eu henwebeion.

iv. Os bydd ymgeisydd dan 16 oed ar y dyddiad cychwyn, rhaid i'r Dirprwy Is-Ganghellor, Dysgu, Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr gymeradwyo'r penderfyniad cychwynnol a wnaed yn sgil yr asesiad risg a gynhaliwyd i benderfynu ar addasrwydd y cwrs.

v. Os bydd canlyniad yr asesiad risg i benderfynu ar addasrwydd y cwrs yn foddhaol, bydd cais y myfyriwr yn cael ei ystyried ar sail academaidd. Bydd unrhyw gynnig a wneir yn cynnwys manylion unrhyw fesurau addasu/rheoli a nodwyd yn yr asesiad risg, ynghyd â'r gofyniad i gwblhau a llofnodi'r ffurflen gydsynio cyn cofrestru.

vi. Dan amgylchiadau eithriadol, os bydd yr asesiad risg a gynhaliwyd i benderfynu ar addasrwydd y cwrs yn nodi na fydd modd rhoi addasiadau diogelu angenrheidiol rhesymol ar waith, bydd y cais i astudio yn y Brifysgol yn aflwyddiannus a bydd yr ymgeisydd yn cael gwybod am hyn.

vii. Os cynigir lle, ac os bydd yr ymgeisydd sydd dan 18 oed yn dewis Prifysgol Aberystwyth fel ei ddewis pendant neu ddewis wrth gefn:
- Bydd y Swyddfa Derbyn Israddedigion yn anfon y *Ffurflen Gydsynio ar gyfer Derbyn Myfyrwyr Sydd Dan 18 Oed* a bydd yn rhaid llofnodi honno a'i dychwelyd cyn y caiff y myfyriwr gofrestru yn y Brifysgol.
- Bydd y Gofrestra Academaidd yn hysbysu Pennaeth yr adran/adrannau academaidd perthnasol, Pennaeth y Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr a Gyrfaoedd a Phennaeth yr Adran Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd, neu eu henwebeion, ynglŷn ag unrhyw fyfyriwr a fydd dan 18 oed wrth gychwyn yn y Brifysgol. Bwriad hyn yw sicrhau y gall yr adran academaidd/gwasanaeth proffesiynol gynnal asesiad risg ar gyfer y myfyriwr unigol hwnnw i sicrhau bod mesurau diogelu priodol ar waith ar ei gyfer.

viii. Ar ôl cadarnhau hyn:
- Bydd y Swyddfa Derbyn Israddedigion yn gwirio bod y *Ffurflen Gydsynio ar gyfer Derbyn Myfyrwyr Sydd Dan 18 oed* wedi'i llofnodi a'i dychwelyd. Bydd y ffurflen hon yn cael ei chadw gan y Gofrestrfa Academaidd hyd nes bod y myfyriwr yn cyrraedd 18 oed.

- Bydd y broses sy'n ymwneud ag asesu'r risg i fyfyrwyr unigol yn cael ei chwblhau gan Bennaeth yr adran/adrannau academaidd, neu ei enwebai, mewn cydweithrediad â'r gwasanaethau proffesiynol, fel y bônt yn briodol. Bydd y broses hon yn unigryw i bob ymgeisydd/myfyriwr a gallai gynnwys, er enghraifft, faterion sy'n ymwneud â chynnwys y rhaglen a sut y'i cyflwynir, y trefniadau astudio, gofal bugeilio, tiwtora personol, ynghyd â'r amgylchiadau personol sy'n unigryw i'r myfyriwr, er enghraifft anabledd neu faterion iechyd. Bydd yr asesiad risg hwn a gynhelir ar fyfyriwr unigol yn cael ei gadw gan y Gofrestr Academaidd hyd nes bod y myfyriwr yn cyrraedd 18 oed.
- Bydd yr Adran Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd yn cwblhau asesiad risg sy'n ymwneud â llety ar gyfer unrhyw fyfyriwr sydd dan 18 oed ac sy'n bwriadu byw yn llety'r Brifysgol. Bydd yr asesiad risg sy'n ymwneud â llety yn cael ei gadw gan yr Adran Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd hyd nes bod y myfyriwr yn cyrraedd 18 oed.
- Ni fydd y mesurau rheoli a roddwyd ar waith yn berthnasol mwyach pan fydd y myfyriwr yn cyrraedd 18 oed.

ix. Os yw myfyriwr yn astudio yn y Ganolfan Saesneg Ryngwladol pan fydd yn cyflwyno cais am le fel myfyriwr israddedig, ac yn cyrraedd 18 oed o fewn 1 mis o ddyddiad cychwyn ei radd, bydd Ffurflen Gydsynio'r Ganolfan Saesneg Ryngwladol ar gyfer Rhieni yn cael ei derbyn, bydd y Ganolfan Saesneg Ryngwladol yn cyflwyno'r asesiad risg a bydd y myfyriwr yn gallu parhau i fanteisio ar holl gefnogaeth y Ganolfan Saesneg Ryngwladol, gan gynnwys y llinell ffôn 24 awr a'r sesiynau tiwtora rheolaidd yn y Ganolfan i rai dan 18 oed, a hynny hyd nes ei fod yn cyrraedd 18 oed.

Ch. Polisïau Cysylltiedig Eraill

Diogelu Unigolion sy'n Agored i Niwed:
https://www.aber.ac.uk/en/media/departmental/humanresources/aberpoliciesprocedures/Safeguarding---English.pdf